**Andrew Davies AM/AC**

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Minister for Finance and Public Service Delivery**

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Welsh Assembly Government

Peter Black

AC dros Dde-orllewin Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

19 Mawrth 2009

Annwyl Peter

**Ymateb Gweinidogol i faterion a godwyd yn ystod trafodaeth y cyfarfod llawn ar fesurau a gymerwyd i ddiogelu data personol ar ddydd Mercher 04 Mawrth 2009.**

Yn ystod y drafodaeth uchod gwnaethoch alw ar Lywodraeth y Cynulliad i fabwysiadu nifer o fesurau i wella prosesau diogelu data, gan gynnwys:

- dod â'r arfer o ddefnyddio dyfeisiau symudol i storio data i ben, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond wedyn ar ôl cynnal asesiad risg;
- cyflwyno mesurau diogelwch ar gyfer dyfeisiau symudol fel nodweddion awdurdodi, amgodio a rheolaethau gwahanu.

Gallaf gadarnhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad bolisi Defnyddio TGCh ar waith sy'n cynnwys rheolau sy'n llywodraethu'r defnydd o ddyfeisiau symudol a chadw data. Mae'r polisi yn nodi bod yn rhaid defnyddio'r holl reolaethau diogelwch (e.e. awdurdodi) ar ddyfeisiau symudol a bod staff yn gyfrifol am

ofalu'n briodol am ddyfeisiau yn eu meddiant. Mae hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar sefyllfaoedd lle nad yw'n briodol defnyddio dyfais symudol.

Mae'r polisi hefyd yn nodi na chaniateir cadw data personol sensitif ar ddyfais symudol hyd yn oed os yw'r ddyfais honno wedi'i hamgodio. Dan amgylchiadau eithriadol cwblheir asesiadau risg cyn i unrhyw ildiadau hawl diogelwch gael eu caniatáu i ddefnyddio dyfeisiau symudol ar gyfer cadw data personol.

Gwnaethoch hefyd awgrymu y dylid trin pob achos o dorri cod diogelu data Llywodraeth y Cynulliad o ddifrif ac ystyried yr achosion hyn yn gamymddwyn posibl.

Gallaf gadarnhau bod y polisïau diogelwch yn cynnwys achosion o dorri'r cod diogelu data yn y rhestr o ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn gamymddwyn. Cyfeirir y cyfryw achosion at yr adran Adnoddau Dynol iddi ystyried camau disgyblaethol priodol.

O ran y GIG, ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeiryddion y GIG ym mis Gorffennaf 2008 i'w hatgoffa o'u dyletswydd gofal i gleifion wrth ddiogelu eu gwybodaeth a'u cyfrinachedd. Yn y llythyr, noda'r Gweinidog:

"Ystyriaf fod colli gwybodaeth gyfrinachol yn fater disgyblu. Os bydd unrhyw aelod o'ch sefydliad yn methu â diogelu cofnodion cleifion, disgwyliaf i reolwyr gymryd camau ar unwaith."

Mae'r broses gyfredol o gaffael rhaglenni meddalwedd Amgodio Cenedlaethol gan Hysbysu Gofal Iechyd yn gam gweithredu a gymerir ar hyn o bryd, ynghyd â hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer staff a phrosesau a rheolaethau lliniaru eraill.

Hyderaf fod hyn yn egluro'r sefyllfa ond os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,
Andrew